O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1443 (Cy. 151)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ysgol O. M. Edwards, Llanuwchllyn, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 20mya Rhan-amser Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mehefin 2015* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mehefin 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ysgol O.M. Edwards, Llanuwchllyn, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 20mya Rhan-amser Dros Dro) 2015..

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd yn Llanuwchllyn yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 110 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4403 hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**Atal**

**4.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanuwchllyn, y Bala) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2003**(3)** i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2, wedi eu hatal drwy hyn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mehefin 2015

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2003/1154 (Cy.156)